

Entrepreneur

Cyflwyniad

Mae entrepreneuriaid yn sefydlu ac yn cynnal busnes i wneud elw. Gallai'r busnes fod yn unrhyw fath o faes diwydiannol neu faes gwasanaethau. Mae rhai entrepreneuriaid yn cynnal eu busnes ar eu pennau eu hunain; mae partneriaid busnes gan rhai eraill. Efallai y byddant yn cychwyn neu'n buddsoddi mewn busnesau eraill.

Adwaenir hefyd fel

- Perchennog Busnes



Gweithgareddau Gwaith

Rhywun sy'n gweld cyfle i gychwyn a rhedeg ei fusnes ei hun yw Entrepreneur. Efallai y byddwch chi'n penderfynu gwneud hyn oherwydd eich bod wedi dyfeisio cynnyrch neu wasanaeth newydd neu efallai y byddwch chi'n cynnig gwasanaeth nad yw'n bodoli mewn maes penodol. Efallai y byddwch chi'n cymryd drosodd busnes sy'n bodoli'n barod, neu efallai y byddwch chi'n gwerthu cynhyrchion sydd eisoes yn bodoli i farchnadoedd newydd neu mewn modd gwahanol. Beth bynnag fo gofynion eich busnes, bydd rhaid i chi wneud y pethau canlynol i lansio'ch cwmni newydd a sicrhau ei fod yn llwyddiannus:

- Sicrhau eich bod yn diogelu eich syniadau (ar ffurf patentau lle bo hyn yn berthnasol).
- Gwneud a phrofi prototeip neu samplau o'r cynnyrch, lle bo rhaid.
- Gwneud ymchwil farchnad i sicrhau bod angen a bod marchnad am eich cynnyrch neu eich gwasanaeth.
- Penderfynu pwy yw eich cwsmeriaid targed.
- Gwneud ymchwil i gynhyrchion a gwasanaethau unrhyw gwmnïau sy'n cystadlu yn eich erbyn.
- Sicrhau bod gennyh cynllun gwerthu unigryw.
- Meddwl am enw da i'ch cwmni.
- Paratoi prisiau ar gyfer eich cynnyrch neu eich gwasanaeth.
- Llunio cynllun busnes cadarn.
- Codi arian i gyllido'ch cwmni.
- Rhoi gwybod i'ch cwsmeriaid am eich cynnyrch neu eich gwasanaeth.
- Cynllunio dulliau o werthu i'ch cwsmeriaid.
- Dod o hyd i le i redeg eich cwmni neu benderfynu efallai ar gynnal masnach dros y rhyngwyd.
- Cadw cofnodion ariannol cywir.
- Cydweithio â chyflenwyr, gwneuthurwyr a chwmnïau eraill.
- Cyflogi a rheoli staff, lle bo rhaid.
- Rhoi gwasanaeth dda i'r cwsmeriaid.
- Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n rheoli eich maes busnes.
- Trefnu ac adolygu'r modd y mae'r busnes yn gweithredu i sicrhau bod y busnes yn rhedeg yn effeithlon.
- Datblygu syniadau newydd i sicrhau y bydd eich busnes yn ffynnu ac yn tyfu.

Fel Entrepreneur, sy'n gwerthu cynnyrch newydd sbon, efallai y byddwch chi'n gyfrifol am wneud y cynnyrch eich hun, neu efallai y byddwch chi'n trefnu i gwmni arall ei wneud.

Mae rhai Entrepreneuriaid yn cychwyn busnesau eraill neu'n buddsoddi mewn busnesau eraill unwaith y bydd eu cwmni cyntaf yn rhedeg yn llwyddiannus. Efallai y byddwch chi'n gwerthu un cwmni er mwyn prynu un arall.

Efallai y byddwch chi'n penderfynu rheoli a rhedeg busnes bach ar eich pen eich hun heb gyllid o'r tu allan a heb ehangu. Fodd bynnag, os bydd eich cwmni'n tyfu yna efallai y byddwch chi'n penderfynu cael un neu fwy o bartneriaid busnes a fydd yn rhannu elw'r cwmni.

Efallai y bydd rhaid i chi deithio fel rhan o'ch gwaith, er enghraifft, i ymweld â chwsmeriaid, gwneuthurwyr neu gyflenwyr. Efallai y bydd rhaid i chi wneud rhywfaint o deithio rhyngwladol.

Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Entrepreneur, byddwch angen:

- meddwl yn greadigol
- troi syniadau yn gweithredu ymarferol
- deall sut y mae busnesau'n gweithredu
- cynllunio a rhagamcanu
- dylanwadu ar bobl a dwyn perswâd arnynt
- datrys problemau
- gwneud cyflwyniadau/cyfathrebu'ch syniadau i bobl eraill
- rheoli arian a chadw cyfrifon
- trefnu'ch gwaith eich hun ynghyd â gwaith pobl eraill yn aml
- mentro'n ofalus ac yn ddeallus yn eich busnes
- gwneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb dros y canlyniadau
- gwrandao ar gyngor a gweithredu'n seiliedig arno, lle bo angen
- hyder
- cymhelliant
- bod yn drefnus
- parodrwydd i weithio oriau hir
- gwydnwch

Fel arfer, bydd arnoch angen sgiliau arbenigol eraill sy'n berthnasol i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yr ydych yn ei werthu yn eich busnes. Er enghraifft, bydd angen sgiliau arbenigol tra gwahanol ar Gogydd sy'n cychwyn ei fwyty ei hun o gymharu â rhywun sydd wedi dyfeisio darn newydd o offer technegol i'w ddefnyddio yn niwydiant ynni'r haul. Serch hynny, yr un sgiliau busnes a'r un rhinweddau personol fydd eu hangen ar y ddau berson i wneud eu cwmni yn un llwyddiannus.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Mae graddfeydd cyflog Entrepreneuriaid yn amrywio'n eang yn ôl nifer o ffactorau, megis y math o fusnes, y lleoliad a'r galw am y cynhyrchion neu'r gwasanaethau. Bras gyfraddau cyflog yw'r rhai a nodir isod.

Gallai Entrepreneuriaid sy'n cychwyn busnes newydd fod yn ennill llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol. Gallai Entrepreneur sydd â busnes bach sydd wedi ennill ei blwyf ennill tua £30,000 y flwyddyn. Mae modd yn sicr i Entrepreneuriaid sydd â busnesau mawrion llwyddiannus wneud £100,000 y flwyddyn ac nid oes dim un terfyn eithaf ar eu henillion.

Oriau gwaith

Mae Entrepreneuriaid yn pennu eu horiau eu hunain a allai fod yn hir ac afreolaidd, yn enwedig wrth gychwyn busnes newydd.

Ble y gallwn i weithio?

Mae entrepreneuriaid yn gweithredu ym mhob sector busnes. Mae mentergarwch yn bosib yn unrhyw fan yn y Deyrnas Unedig.

Gallai'r sawl sydd â'r sgiliau, y profiad a'r hyder sefydlu busnes mewn gwlad arall neu gyflwyno'u cynhyrchion neu eu gwasanaethau o'r wlad hon i farchnadoedd tramor. Mae ffonau symudol, e-bost, galwadau fideo dros y rhyngwlad ac e-fasnach yn gwneud masnachu dramor yn hawdd, yn gyflym ac yn hygyrch.

Hunangyflogaeth

Mae entrepreneuriaid yn hunangyflogedig. Mae rhai'n gweithio'n rhan-amser fel gweithwyr tra byddant yn sefydlu eu busnes.

Ble y mae'r swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?

Mae entrepreneuriaid yn creu cyfleoedd drwy eu menter eu hunain a'u hasesiad o'r risgiau.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad Mae sawl gwahanol lwybr i ddod yn Entrepreneur. Mae profiad gwaith perthnasol o weithio mewn amgylchedd busnes yn fan cychwyn da. Mae cymwysterau galwedigaethol perthnasol at gael, fel Cymwysterau BTEC, City and Guilds, a Cambridge Technicals. Mae rhai pobl yn penderfynu dechrau eu busnes eu hunain ar ôl gweithio i sefydliad arall, weithiau am flynyddoedd lawer. Efallai y bydd rhai eraill yn cychwyn busnes ar ôl gwneud gradd neu gwrs addysg uwch arall. Mae yna rai cyrsiau gradd a gradd sylfaen penodol sy'n gyfan gwbl berthnasol i fentergarwch a menter busnes. Mae cyrsiau eraill yn cynnwys opsiynau i astudio menter busnes fel rhan o radd gwbl wahanol. Mae sawl prifysgol a choleg yn cynnal cystadlaethau menter a mentergarwch. Mae syniad gan rai pobl am gynnyrch neu wasanaeth newydd tra'u bod yn astudio am unrhyw gymhwyster. **Hyfforddiant** Mae sawl sefydliad sy'n cynnal cyrsiau hyfforddiant ac yn cynnig cymorth i bobl sy'n meddwl dechrau eu busnes eu hunain. Maent yn cynnwys:

- Siambrau Masnach Prydain
- Asiantaethau Menter
- Entrepreneur First
- Sefydliad Menter a'r Entrepreneuriaid
- SFEDI.
- Shell LiveWire (i bobl rhwng 16 a 30 oed)
- Canolfan Genedlaethol Mentergarwch mewn Addysg

Efallai y gallech chi gael cymorth a chynghor gan fentor busnes. Efallai y byddwch chi'n penderfynu gwneud cwrs neu gymhwyster rheoli neu fusnes cyffredinol neu gymhwyster menter/cychwyn busnes mwy penodol. Mae tystysgrifau a diplomâu lefel 2 a 3 ar gael ym maes busnes, rheoli a chychwyn busnesau. Efallai y byddwch chi'n medru cael grant neu fenthyciad i'ch helpu i sefydlu'ch busnes. Gallai hynny fod o gynllun llywodraethol, busnes preifat neu elusen. Efallai y gallech chi gael cynghor a benthyciad gan fanc. Gall pobl 18 oed a throsodd sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ers 26 wythnos neu fwy wneud cais am gymorth drwy'r Lwfans Menter Newydd. Mae rhai entrepreneuriaid newydd yn sefydlu eu cwmnïau mewn unedau deorfeydd busnes (sy'n cael eu cynnal yn aml gan brifysgolion, awdurdodau lleol neu asiantaethau datblygu). Mae'r rhain yn cynnig cymorth busnes a llety hyblyg a fforddiadwy. Os ydych rhwng 18 a 30 oed, efallai y gallech gael cymorth oddi wrth Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae arnoch angen:

- meddu ar syniad busnes da
- bod yn barod i weithio i chi'ch hun
- bod yn ddi-waith neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos
- methu â dod o hyd i gyllid o ffynonellau eraill

Dilyniant Nod Entrepreneuriaid yw datblygu drwy wneud i'w busnes dyfu a ffynnu. Wedyn, mae rhai Entrepreneuriaid yn cychwyn busnesau eraill neu'n buddsoddi ym musnesau pobl eraill. Yn aml, mae Entrepreneuriaid llwyddiannus yn rhoi cynghor i bobl gychwyn eu busnesau eu hunain.

Cymwysterau

Nid oes isafswm cymwysterau sy'n angenrheidiol i gychwyn eich busnes eich hun.

Mae rhai Entrepreneuriaid yn raddedigion.

Y gofynion arferol i gael mynediad i radd mewn unrhyw bwnc yw:

- 2/3 Safon Uwch
- TGAU gradd C/4 neu uwch mewn 2/3 phwnc arall.

Mae cymwysterau yn lle Safon Uwch yn cynnwys:

- Cymwysterau Lefel 3 BTEC
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Mae cymwysterau Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 BTEC ar gael mewn pynciau perthnasol, gan gynnwys:

- Gweithredu Ymagwedd Entrepreneuriaid (Lefel 3)
- Cychwyn Busnes gyda Sgiliau Entrepreneuriaid (Lefel 2)
- Datblygu Ymagwedd Entrepreneuriaid (Lefel 2)
- Menter ac Entrepreneuriaeth (Lefel 3)
- Deall Ymagwedd Entrepreneuriaid (Lefel 1)

- Deall Menter ac Entrepreneuriaeth (Lefel 2 a 3).

Hefyd, mae cymwysterau Lefel 2 a 3 perthnasol ar gael gyda City & Guilds a Cambridge Technical, mewn pynciau sy'n gysylltiedig â Busnes.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Cyfngiadau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod cyfngiadau oedran ar gael mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gallant ddangos bod gwir angen am y cyfngiadau hynny.

Mae isafswm oedran yn ofynnol i wneud rhai gweithgareddau, er enghraifft, gweithio'n hunangyflogedig fel gyrrwr cerbydau nwyddau mawrion.

Mynediad

Mae rhai mathau o fenter yn gofyn am gymhwyster proffesiynol, er enghraifft, gweithio fel peiriannydd siartredig hunangyflogedig neu gymwysterau cysylltiedig â gwaith, megis Cofrestr Diogelwch Nwy (sef cofrestriad CORGI gynt) i dechnegwyr hunangyflogedig sy'n gwasanaethu nwy.

Mae llawer o bobl yn cychwyn mentrau newydd neu'n cymryd mentrau presennol drosodd sydd yn yr un diwydiant lle y cawsant ddealltwriaeth drylwyr fel gweithwyr yno.

Mae rhai pobl yn negodi contract gyda'u cyflogwr i ddarparu cynnyrch neu wasanaeth fel cyflenwyr hunangyflogedig ar ôl gadael eu gwaith.

Mae rhai pobl yn penderfynu prynu masnachfaint (busnes sydd wedi ennill ei phlwyf sy'n cynnig maes masnachu dynodedig o dan enw brand). Mae deiliad y fasnachfaint yn masnachu o dan enw'r brand ac yn talu canran o'u helw yn gyfnewid am gymorth busnes, hysbysebu a marchnata.

Mae cyfeiriadur o sefydliadau menter cenedlaethol ar wefan y Rhwydwaith Menter Cenedlaethol. Gall y sefydliadau menter hyn helpu unigolion a grwpiau penodol i sefydlu busnes.

Gall pobl sy'n ystyried hunangyflogaeth gael cyngor am gychwyn busnesau ar wefan GOV.UK y llywodraeth – gweler 'Busnesau a'r Hunangyflogedig' o dan adran 'Mwy o Wybodaeth'. Gall sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog roi cyngor a chymorth ariannol i bobl rhwng 18 a 30 oed.

Gall pobl dros 50 oed gael mentora a chyngor am ddim oddi wrth Prime (sef Menter y Tywysog i Fentrau Aeddfed).

Cyrsiau mynediad

Os na fydd y cymwysterau angenrheidiol gennych i gael mynediad i'r cwrs gradd neu HND o'ch dewis, efallai y gallai cwrs Mynediad fod yn ddull o gael mynediad.

Mae'r cyrsiau hyn wedi'u llunio i bobl sydd heb ddilyn y llwybrau arferol i faes addysg uwch. Nid oes angen dim cymwysterau ffurfiol fel arfer, ond dylech wirio hyn â'r colegau unigol.

Dysgu o bellter

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig B322 Ymchwilio i Gyfleoedd Mentergarwch drwy ddysgu o bell.

Mae nifer o brifysgolion yn cynnig graddau mewn pynciau perthnasol drwy ddysgu o bell.

Mae Prifysgol Lerpwl yn cynnig MBA mewn Mentergarwch drwy ddysgu o bell. Mae Prifysgol Middlesex yn cynnig MBA sydd â ffrwd mentergarwch iddi.

Cyllid

Gallai fod cyllid ar gael i'ch helpu i sefydlu'ch busnes. Gallai hynny fod o gynllun llywodraethol, busnes preifat neu elusen.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Open University (OU)**
Ffôn 0845 3006090
Gwefan www.open.ac.uk
- **Getting into Business & Economics Courses**
Author: Carly Roberts Publisher: Trotman
Gwefan www.prospectseducationresources.co.uk/products/9781911067382.html
- **Department for Business, Innovation & Skills (BIS)**
Cyfeiriad 1 Victoria Street, London SW1H 0ET
Ffôn 020 7215 5000
E-bost enquiries@bis.gsi.gov.uk
Gwefan www.gov.uk/government/organisations/department-for-business-innovation-skills
- **Shell LiveWIRE**
Gwefan www.shell-livewire.org
- **Prince's Trust**
Cyfeiriad 18 Park Square East, London NW1 4LH
Ffôn 0800 842842
E-bost webinfops@princes-trust.org.uk
Gwefan www.princes-trust.org.uk
- **Prince's Initiative for Mature Enterprise (PRIME)**
Ffôn 0845 8622023
E-bost info@prime.org.uk
Gwefan www.prime.org.uk
- **National Enterprise Network (NEN)**
Cyfeiriad 12 Stephenson Court, Fraser Road, Priory Business Park, Bedford MK44 3WJ
Ffôn 01234 831623
E-bost enquiries@nationalenterprisenetwork.org
Gwefan www.nationalenterprisenetwork.org
- **British Chambers of Commerce (BCC)**
Cyfeiriad 65 Petty France, London SW1H 9EU
Ffôn 020 7654 5800
E-bost info@britishchambers.org.uk
Gwefan www.britishchambers.org.uk
- **Business Wales**
Welsh enquiries
Ffôn 0300 0603000
Gwefan business.wales.gov.uk
- **Institute of Enterprise and Entrepreneurs (IoEE)**
Cyfeiriad Enterprise House, 18 Parsons Court, Welbury Way, Aycliffe Business Park, Durham DL5 6ZE
E-bost info@ioee.uk
Gwefan www.ioee.co.uk
- **SFEDI Awards**
Cyfeiriad Enterprise House, 18 Parsons Court, Welbury Way, Aycliffe Business Park, Durham DL5 6ZE
Ffôn 0845 2245928
E-bost customerservice@sfedwards.com
Gwefan www.sfedwards.com

- **Enterprise Nation**
Gwefan www.enterprisenation.com
- **Business Gateway**
Scottish enquiries
Ffôn 0845 6096611
Gwefan www.business.scotland.gov.uk
- **Youth Business Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 6th Floor, 17 Renfield Street, Glasgow G2 5AH
Ffôn 0141 2044409
Gwefan www.psybt.org.uk
- **Businesses and Self-Employed**
UK government services and information
Gwefan www.gov.uk/browse/business
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangecymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Rheolwr Adnoddau Dynol (AD)
- Ysgrifennydd Cwmni
- Ymgynghorydd Recriwtio
- Ergonomegydd
- Archwilydd Iechyd a Diogelwch
- Cyngorydd Iechyd a Diogelwch
- Ymgynghorydd Rheoli
- Arbenigwr Gwasanaethau Rheoli
- Swyddog Cysylltiadau Gweithwyr
- Rheolwr
- Rheolwr Prosiectau
- Dadansoddwr Busnes
- Rheolwr Darparu Gwasanaethau
- Rheolwr Contractau
- Rheolwr Optimeiddio Peiriannau Chwilio
- Rheolwr Gweithrediadau
- Rheolwr Modelu Gwybodaeth am Adeilad
- Rheolwr Datblygu Busnes
- Rheolwr Cadwyn Gyflenwi
- Rheolwr Masnachol
- Partner Busnes Adnoddau Dynol (AD)
- Rheolwr Swyddfa
- Rheolwr Materion Rheoleiddiol
- Bioystadegydd
- Gosodwr Amddiffyniad Tân